


# Cynllun Ardal Caerdydd a'r Fro ar gyfer Anghenion Gofal a Chymorth

Siapio Ein Llesiant yn y Dyfodol:  
'Fi, Fy Nghartref, Fy Nghymuned'

2018-2023





# Cynnwys

Beth yw Diben y Cynllun Ardal?	3
Beth yw Asesiad Anghenion y Boblogaeth?	3
Mynd i'r Afael â'r Anghenion Gofal a Chymorth a Nodwyd	5
Datblygu'r Cynllun Ardal	5
Cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Lleol	6
Cyfrannu tuag at Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol	7
Monitro ac Adolygu	7
Trosolwg ar y Blaenoriaethau Rhanbarthol Allweddol	8
1. Pobl Hŷn, gan gynnwys Pobl â Demensia	12
2. Plant a Phobl Ifanc, gan gynnwys Plant ag Anghenion Cymhleth	15
3. Anabledd Dysgu ac Awtistiaeth	18
4. Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd	21
5. Gofalwyr Ifanc a Gofalwyr sy'n Oedolion	24
6. Iechyd ac Anableddau Corfforol	27
7. Iechyd Meddwl a Nam Gwybyddol Oedolion	30
8. Nam Synhwyrdd a Cholli Cynneddf y Synhwyrdd	33
9. Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol	36
10. Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid	39
11. Troseddwyr	42
12. Cyn-filwyr	45
13. Camddefnyddio Sylweddau	48




# Beth yw Diben y Cynllun Ardal?


Mae'r Cynllun Ardal yn rhoi ymateb Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg i ganfyddiadau'r [Aseiad o Anghenion y Boblogaeth](#), a gyhoeddwyd fis Mawrth 2017.

Mae wedi ei baratoi i ateb gofynion y [Canllaw Statudol](#) parthed y Cynlluniau Ardal o dan adran 14A Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Ddeddf yn galw am ddisgrifiad o ystod a lefel y gwasanaethau sydd i'w cynnig neu eu trefnu mewn ymateb i anghenion gofal a chymorth, gan gynnwys anghenion cymorth gofalwyr, a nodwyd yn yr adroddiadau asesu poblogaeth.

Mae'r cynllun hwn wedi ei baratoi ar sail cyfnod o 5 mlynedd yn unol â'r gofynion ar gyfer paratoi Aseiad Anghenion Poblogaeth.



# Beth yw Aseiad Anghenion y Boblogaeth?



Rhoddodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ddyletswydd ar awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i baratoi a chyhoeddi aseiad o anghenion gofal a chymorth y boblogaeth, gan gynnwys gofalwyr sydd angen cefnogaeth.

Ymunodd partneriaid o sectorau cyhoeddus a gwirfoddol Caerdydd a Bro Morgannwg dan faner 'Amser Siarad' i nodi'r prif anghenion gofal a chymorth, materion atal, ac asedau (megis pobl, adeiladau, sefydliadau neu wasanaethau sy'n cyfrannu at ehangu neu sicrhau llesiant) yn yr ardal.

Cynhaliwyd aseiad rhwng mis Chwefror 2016 a mis Ionawr 2017. Dros y cyfnod hwn, daethpwyd â gwybodaeth ynghyd o nifer o ffynonellau: arolygon cyhoeddus wedi'u teilwra ar gyfer y gynulleidfa; cyfweiliadau grŵp ffocws gyda phreswylwyr lleol; arolwg o weithwyr proffesiynol lleol a sefydliadau sy'n cynnig gofal neu gymorth, gan gynnwys y trydydd sector; data gwybodaeth a phoblogaeth; prif ddogfennau; a gwaith blaenorol.

Yn yr adroddiad cyflwynir canfyddiadau manwl ar aseiad anghenion gofal a chymorth sy'n cwmpasu nifer o grwpiau poblogaeth fel y nodwyd gan Lywodraeth Cymru, sy'n cynnwys:



Pobl Hŷn, gan gynnwys Pobl â Demensia



Plant a Phobl ifanc



Anabledd Dysgu ac Awtistiaeth



Gofalwyr Ifanc a Gofalwyr sy'n Oedolion



Iechyd ac Anabledau Corfforol



Nam Synhwyrdd a Cholli Cynneddf y Synhwyrdd



Iechyd Meddwl a Nam Gwybyddol Oedolion



Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Yn ein rhanbarth ni, nodwyd y grwpiau/themâu canlynol gennym hefyd fel blaenoriaethau i'w hadolygu:



Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid



Troseddwyr



Cyn-filwyr



Camddefnyddio Sylweddau



Tanlinellodd yr Aseiad Anghenion Poblogaeth nifer o anghenion gofal a chymorth allweddol a oedd yn gorgyffwrdd ar gyfer poblogaeth Caerdydd a Bro Morgannwg. Roedd y rhain yn cynnwys:



## Anghenion Gofal a Chymorth Allweddol a Nodwyd




### Canfyddiadau Allweddol



#### Canfyddiad Allweddol 1 (CA1):

Cynyddu cyfranogiad dinasyddion yn y gwaith o siapio'r gwasanaethau ataliol ac ymatebol



#### Canfyddiad Allweddol 2 (CA2):

Hyrwyddo a gwella mynediad at wybodaeth a chynghor o ansawdd uchel sydd ar gael



#### Canfyddiad Allweddol 3 (CA3):

Cefnogi ymhellach y gwaith o ddatblygu cyfleoedd sy'n galluogi llesiant cymdeithasol ac economaidd



#### Canfyddiad Allweddol 4 (CA4):

Cryfhau cysylltiadau rhwng ysgolion, cyfleoedd galwedigaethol, prentisiaethau, addysg bellach a dysgu oedolion



#### Canfyddiad Allweddol 5 (CA5):

Cefnogi pobl i wneud dewisiadau bywyd mwy iach i leihau achosion o ymddygiad nad yw'n iach



#### Canfyddiad Allweddol 6 (CA6):

Gwella mynediad at ofal a chymorth iechyd meddwl lefel isel ac arbenigol



#### Canfyddiad Allweddol 7 (CA7):

Darparu tai ac amgylcheddau cymunedol sy'n briodol a diogel, i alluogi pobl i barhau i fyw'n annibynnol



#### Canfyddiad Allweddol 8 (CA8):

Gwella trafniadau gyhoeddus, i wella mynediad at wasanaethau, cyflogaeth a gweithgareddau cymdeithasol



#### Canfyddiad Allweddol 9 (CA9):

Datblygu gwasanaethau sy'n atal yr angen am ofal a chymorth mwy dwys



#### Canfyddiad Allweddol 10 (CA10):

Datblygu gwasanaethau i ymateb i anghenion gofal a chymorth nawr ac yn y dyfodol, gan gynnwys rhai'r gofalwyr



#### Canfyddiad Allweddol 11 (CA11):

Gwella cefnogaeth i bobl wrth iddynt bontio rhwng gwasanaethau



#### Canfyddiad Allweddol 12 (CA12):

Gwella arferion gwaith sefydliadol, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn helpu pobl i gyflawni'r canlyniadau maen nhw'n eu dymuno

Mae ymateb y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol a Phartneriaethau/dulliau cyflenwi eraill i'r canfyddiadau allweddol hyn wedi ei adlewyrchu ym mhob un o'r penodau poblogaeth/thema sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun hwn.



# Mynd i'r Afael â'r Anghenion Gofal a Chymorth a Nodwyd

Mewn ymateb i ganfyddiadau'r Aseiad Anghenion Poblogaeth, cwblhawyd adolygiad parthed pob maes gweithredu a awgrymwyd yn yr adroddiad. Gwnaed yr adroddiad hwn yng ngoleuni gweithgaredd presennol neu a gynlluniwyd yn y Partneriaethau presennol neu ddulliau cyflawni sefydliadol er mwyn nodi lle mae'r gwaith hwn eisoes yn mynd rhagddo.

Mae dau adroddiad wedi eu paratoi yn sgil yr adolygiad hwn. Y cyntaf yw'r Cynllun Ardal hwn, sy'n nodi'r anghenion allweddol a nodwyd yn yr Aseiad Poblogaeth, ynghyd â'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu mewn ymateb i'r canfyddiadau. Yn ychwanegol, mae [Cynllun Gweithredu Ardal](#) hefyd wedi ei ddatblygu, sy'n rhoi'r manylion ynghylch sut caiff y blaenoriaethau hyn eu cyflawni. Mae'r ddau adroddiad hefyd yn nodi'r cyfraniadau at Amcanion Llesiant Caerdydd a Bro Morgannwg a Fframwaith Canlyniadau'r Gwasanaethau Cymdeithasol Cenedlaethol.


Bydd prif ffocws y ddau Gynllun ar gyfrifoldebau'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol dros integreiddio gwasanaethau yn ymwneud â:



Plant ag Anghenion Cymhleth



Gofalwyr Ifanc a Gofalwyr sy'n Oedolion



Pobl Hŷn, gan gynnwys Pobl â Demensia



Anabledd Dysgu ac Awtistiaeth



Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd

Lle nodir themâu gofal a chymorth y cânt eu harwain gan Bartneriaethau a threfniadau cynllunio eraill ledled y rhanbarth, bydd y ddau Gynllun yn cyfeirio at ddulliau adrodd sy'n bodoli eisoes er mwyn gallu monitro cynnydd.

Mae'r Cynllun Ardal a'r Cynllun Gweithredu Ardal ill dau i'w cael yma: [www.cvihsc.co.uk/cy/amdanon-ni/yr-hyn-a-wnawn-ni/cynllun-ardal-caerdydd-a-bro-morgannwg/](http://www.cvihsc.co.uk/cy/amdanon-ni/yr-hyn-a-wnawn-ni/cynllun-ardal-caerdydd-a-bro-morgannwg/)

## Datblygu'r Cynllun Ardal

Mae datblygiad y Cynllun Ardal a'r Cynllun Gweithredu Ardal wedi eu seilio ar nifer o ffynonellau, gan gynnwys arolygon cyhoeddus, cyfweiliadau grŵp ffocws â phreswylwyr lleol, arolwg o weithwyr proffesiynol a sefydliadau lleol sy'n darparu gofal neu gymorth, data ynghylch gwasanaeth a phoblogaeth, dogfennau allweddol, a'r gwaith sy'n cael ei gyflawni ar hyn o bryd gan sefydliadau partner.

Er nad yw'n ofynnol cynnal ymgynghoriad ffurfiol ynghylch y Cynllun Ardal, gwahoddwyd y bobl sydd ynghlwm â chynhyrchu Aseiad Anghenion y Boblogaeth i roi eu sylwadau ar y ddogfen ddrafft a chyfrannu at y Cynllun Ardal.

Yn ogystal, datblygwyd arolwg cyhoeddus ar-lein er mwyn rhoi cyfle i bobl roi eu sylwadau. Gweithiwyd gyda chydweithwyr y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd er mwyn cymryd rhan ym mhroses ymgysylltu'r Cynlluniau Llesiant ac i gychwyn ar drafodaeth am anghenion gofal a chymorth.

Fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Cynllun, mae'r Bartneriaeth wedi ymgymryd ag Aseiad Effaith Cydraddoldeb ac Iechyd. Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg yn gwasanaethu poblogaeth amrywiol dros ben ac mae'n rhoi ystyriaeth i ofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017 er mwyn hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb. Drwy ddarparu'r Cynllun hwn, mae'r Bartneriaeth yn ymrwymo i hyrwyddo mesurau cadarnhaol sy'n mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau ym maes iechyd a chael gwared ar yr holl fathau o wahaniaethu anghyfreithiol neu annheg ar sail oed, priodas a phartneriaeth sifil, anabledd, hil, rhywedd, crefydd/cred, tueddfryd rhywiol, ailbennu rhywedd neu hunaniaeth o ran rhywedd a beichiogrwydd/mamolaeth.

Mae'r holl adborth sy'n dod i law wrth ddatblygu'r Cynllun a'r ymgynghoriad dilynol wedi cael eu hystyried a'u hadlewyrchu yn y dogfennau terfynol, fel sy'n briodol.






# Cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Lleol

Datblygwyd y Cynllun hwn mewn cydweithrediad agos â Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus Caerdydd a Bro Morgannwg, i gydnabod y bydd llawer o flaenoriaethau'r Cynllun Ardal hwn yn cynrychioli elfennau gofal a chymorth y ddau Gynllun Llesiant.

Mae Aseidiadau a Chynlluniau Llesiant yn ofyniad statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sydd yn ymwneud â gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy ddatblygiad cynaliadwy.

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff y sector cyhoeddus i weithredu er mwyn cyflawni saith nod llesiant yn unol ag 'egwyddor datblygu cynaliadwy'. Dyma'r saith nod llesiant:

- Cymru lewyrchus
- Cymru iachach
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru gydnerth



I ddangos bod 'egwyddor datblygu cynaliadwy' yn cael ei rhoi ar waith, bydd angen i gyrff yn y sector cyhoeddus:

<u>Atal</u>	<u>Integreiddio</u>	<u>Cydweithio</u>	<u>Ymwneud</u>	<u>Hirdymor</u>
				
Canolbwyntio ar atal drwy edrych ar beth sy'n achosi problemau	Cyflawni gwasanaethau gan ddefnyddio dull integredig	Cydweithio i ganfod atebion cynaliadwy a rennir	Cynnwys eraill i gyflawni'r amcanion llesiant	Rhoi ystyriaeth i anghenion byrdymor a hirdymor

Mae pob un o'r penodau poblogaeth/thema yn y Cynllun Ardal yn amlinellu pa rai o Amcanion Llesiant Caerdydd a Bro Morgannwg y mae'r prif gamau gweithredu yn cyfrannu atynt fel rhan o ddealltwriaeth ehangach o gyfraniad a rennir at ganlyniadau llesiant. Bydd llawer o'r camau gweithredu allweddol a gwmpesir yn y Cynllun hwn yn cyfrannu at fwy nag un amcan llesiant o ystyried bod y gwasanaethau gofal a chymorth yn cael effaith sy'n gorgyffwrdd:

## Amcanion Cynllun Llesiant Caerdydd

						
Prifddinas sy'n gweithio i Gymru	Mae Caerdydd yn tyfu mewn ffordd gadarn	Cymunedau diogel, hyderus a grymuso	Mae Caerdydd yn lle gwych i fagu plant	Cefnogi pobl allan o dlodi	Mae Caerdydd yn lle gwych i fynd yn hŷn	Moderneiddio ac integreiddio ein gwasanaethau cyhoeddus

## Amcanion Cynllun Llesiant Bro Morgannwg


			
Galluogi pobl i gyfranogi, cymryd rhan yn eu cymunedau a siapio gwasanaethau lleol	Lleihau tlodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb sydd ynghlwm wrth amddifadedd	Rhoi'r dechrau gorau ar fywyd i blant	Amddiffyn, gwella a rhoi gwerth ar ein hamgylchedd



# Cyfrannu tuag at Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol

Datblygwyd [Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol](#) i ateb gofyn yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i ddisgrifio llesiant ar gyfer pobl a gofalwyr sydd angen gofal a chymorth, a chynnig dull cyson o fesur llesiant.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio llesiant fel:



Datblygwyd canlyniadau cenedlaethol ar gyfer bob un o'r 8 agwedd ar lesiant sydd angen i bobl a gofalwyr sydd angen gofal a chymorth eu cyflawni. Er enghraifft:

- Gwrandewir ar yr hyn sydd gennyf i'w ddweud** (I am heard about what I have to say) - Scales icon
- Rwy'n hapus ac yn gwneud pethau sy'n fy ngwneud i'n hapus** (I am happy and doing things that make me happy) - Heart icon
- Rwyf wedi'i fy niogelu a'm hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod** (I have been protected and defended from abuse and neglect) - Hand icon
- Gallaf ddysgu a datblygu i'm llawn potensial** (I can learn and develop my full potential) - Book icon
- Rwy'n perthyn** (I belong) - Family icon
- Rwy'n ymgysylltu â'm cymuned ac yn cyfrannu ati** (I am engaged with my community and contributing to it) - Handshake icon
- Caf fy nghefnogi i weithio** (I have support to work) - Person with sign icon
- Rwy'n byw mewn cartref sy'n rhoi'r gefnogaeth orau i mi gyflawni fy nodau llesiant** (I live in a home that provides the best support for me to achieve my well-being goals) - House icon

Mae pob pennod yn manylu ar ba agweddau ar lesiant y disgwyli'r blaenoriaethau allweddol gyfrannu tuag atynt. Mae mwy o wybodaeth am y canlyniadau i'w chael yn y Cynllun Gweithredu sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Ardal hwn yma: [www.cvihsc.co.uk/cy/amdanon-ni/yr-hyn-a-wnawn-ni/cynllun-ardal-caerdydd-a-bro-morgannwg/](http://www.cvihsc.co.uk/cy/amdanon-ni/yr-hyn-a-wnawn-ni/cynllun-ardal-caerdydd-a-bro-morgannwg/)

## Monitro ac Adolygu

Caiff cynnydd yn erbyn cyflawniad blaenoriaethau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ei fonitro a'i adolygu yn adroddiad blynyddol y Bwrdd, a gaiff ei gyhoeddi yn gynnar yn 2018/19. Caiff y Cynllun Gweithredu ei ddiweddarau a'i ddiwygio fel y bo'n briodol i adlewyrchu cyd-destun polisi, demograffeg neu bwysau gwasanaeth sy'n newid.






Adroddir ar y blaenoriaethau y mae Partneriaethau eraill yn mynd i'r afael â nhw drwy ddulliau eraill, megis y bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, neu drwy ddulliau cynllunio sefydliadol, megis Cynlluniau Corfforaethol/Gwella'r awdurdod lleol a Chynllun Tymor Canolig Integredig Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.



# Trosolwg ar y Blaenoriaethau Rhanbarthol Allweddol



## Pobl Hŷn, gan gynnwys Pobl â Demensia

### Blaenoriaethau Partneriaeth Rhanbarthol

-  **OP1.1.** Gan adeiladu ar y gwasanaeth Pwynt Cyswllt Cyntaf a'r gwasanaeth Mynediad Pwynt Unigol, datblygu ymhellach wasanaethau digidol ynghyd â phwyntiau mynediad ffôn, ar-lein ac wyneb yn wyneb sy'n hawdd mynd atynt i weithwyr proffesiynol a'r cyhoedd yn y rhanbarth
-  **OP1.2.** Datblygu cymunedau cydnerth sydd â gwasanaethau lleol, seilwaith a rhwydweithiau cymunedol cryf i fodloni anghenion lleol lle y mae pobl hŷn yn byw
-  **OP1.3.** Datblygu a chynnig ystod o ddewisiadau llety yn y dyfodol i fodloni'r galw a galluogi pobl i aros yn eu cartrefi cyn hired ag y bo modd
-  **OP1.4.** Datblygu arferion asesu, diagnosis a chynllunio gofal gwell sy'n adeiladu ar ydweithio gwirioneddol gyda phobl hŷn a'u gofaldwyr a'u teuluoedd, fel bod eu cynllun yn adlewyrchu'r hyn sydd yn bwysig iddynt ac yn cyflawni'r canlyniadau y maent yn eu deisyfu
-  **OP1.5.** Datblygu Caerdydd a Bro Morgannwg fel rhanbarth demensia gyfeillgar









## Plant ag Anghenion Cymhleth

### Blaenoriaethau Partneriaeth Rhanbarthol

-  **CYP1.1.** Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
-  **CYP1.2.** Gwella'r ddarpariaeth integredig ar gyfer plant ag anghenion cymhleth, gan gynnwys pontio rhwng gwasanaethau plant ac oedolion

## Plant a Phobl ifanc

### Blaenoriaethau Eraill y Bartneriaeth







-  **CYP2.1.** Cynyddu rôl plant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau
-  **CYP2.2.** Gwella canlyniadau addysgol
-  **CYP2.3.** Cynyddu nifer yr achosion llwyddiannus o blant a phobl ifanc yn pontio'n llwyddiannus i fyd gwaith, addysg neu hyfforddiant
-  **CYP2.4.** Gwella mynediad at wasanaethau priodol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd mewn angen, gan gydnabod cyfraddau uwch o broblemau emosiynol ac iechyd meddwl
-  **CYP2.5.** Rhoi mwy o gefnogaeth i blant a phobl ifanc yr effeithiwyd arnynt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan ddirywiad perthynas rhieni a thrais domestig
-  **CYP2.6.** Atal camfanteisio'n rhywiol ar blant
-  **CYP2.7.** Galluogi plant a phobl ifanc i fod yn hapus ac yn iach
-  **CYP2.8.** Datblygu sgiliau Cymraeg plant a chreu siaradwyr Cymraeg newydd, i gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050



# Trosolwg ar y Blaenoriaethau Rhanbarthol Allweddol



## Anabledd Dysgu ac Awtistiaeth

### Blaenoriaethau Partneriaeth Rhanbarthol

-  **LDA1.1.** Cefnogi pobl ag anableddau dysgu i fod mor annibynnol â phosib
-  **LDA1.2.** Cefnogi pobl ag anableddau dysgu i chwarae rhan actif mewn cymdeithas ac ymgysylltu â gweithgareddau dydd ystyrlon a chyflogaeth neu wirfoddoli
-  **LDA1.3.** Gwerthfawrogi pobl ag anableddau a'u cynnwys, a'u cefnogi i gael llais, a'u bod yn gallu arfer dewis ac arfer rheolaeth ar eu bywydau
-  **LDA1.4.** Galluogi pobl ag anableddau i aros yn iach a theimlo'n ddiogel
-  **LDA1.5.** Cefnogi pobl ag anableddau dysgu i fod yn ddysgwyr gydol oes
-  **LDA1.6.** Datblygu Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig newydd lle y bydd pob asiantaeth sy'n gweithio mewn dulliau integredig, amlddisgyblaethol yn darparu gwasanaethau priodol i blant, pobl ifanc ac oedolion sydd ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth, gan fynd i'r afael â'u hanghenion emosiynol a rhyngweithio cymdeithasol, a'u hanghenion yn ymwneud ag addysg, iechyd a chyflogaeth







## Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd

### Blaenoriaethau Partneriaeth Rhanbarthol

-  **IFSS1.1.** Parhau i ddarparu ymyrraeth ddwys gyda theuluoedd wedi'u hatgyfeirio gan Wasanaethau Plant lle y ceir pryderon difrifol o ran diogelwch plant yn sgil camddefnyddio sylweddau gan riant/gofalwr, cam-drin domestig neu broblemau iechyd meddwl
-  **IFSS1.2.** Archwilio ymestyn y model Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd Integredig i gynnwys anghenion eraill rhieni (e.e. anabledd dysgu) ac ystyried sut y gall helpu i fynd i'r afael â phrofiadau plentyndod andwyol

## Gofalwyr Ifanc a Gofalwyr sy'n Oedolion

### Blaenoriaethau Partneriaeth Rhanbarthol

-  **AYC1.1.** Nodi a rhoi model ymgysylltu ar waith wedi'i seilio ar arfer da
-  **AYC1.2.** Gwella cymorth corfforol ac emosiynol i ofalwyr ifanc, gan gynnwys seibiant argyfwng a seibiant a gynllunnir ymlaen llaw a lleihau'r perygl o brofiadau plentyndod niweidiol
-  **AYC1.3.** Gwella cymorth corfforol ac emosiynol i ofalwyr sy'n oedolion, gan gynnwys gofal ysbeidiol brys ac wedi ei gynllunio
-  **AYC1.4.** Cael gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc, i gymryd rhan yng nghynlluniau derbyn a rhyddhau cleifion o'r ysbyty os yw'r person sydd dan ei ofal yn yr ysbyty
-  **AYC1.5.** Cynnig gwybodaeth sy'n hawdd cael gafael arno i ofalwyr a pherthnasau mewn ystod o fformatau ac ieithoedd trwy bwyntiau gwybodaeth sy'n bodoli eisoes, megis gofal cynradd a llyfrgelloedd
-  **AYC1.6.** Cynyddu ymwybyddiaeth o ofalu a gofalwyr ymhlith y cyhoedd a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, (e.e. mabwysiadu ymagwedd debyg i Sicrhau bod Pob Cyswllt yn Cyfrif), er mwyn sicrhau y caiff gofalwyr eu nodi cyn gynted ag y bo modd a bod pawb sy'n rhan yn ymwybodol o'u hawliau fel gofalwyr



# Trosolwg ar y Blaenoriaethau Rhanbarthol Allweddol

## Iechyd ac Anableddau Corfforol

*Blaenoriaethau Eraill y Bartneriaeth*



**HPD1.1.** Hyrwyddo ymddygiad iach a gwella a diogelu iechyd a llesiant preswylwyr Caerdydd a Bro Morgannwg

## Iechyd Meddwl a Nam Gwybyddol Oedolion

*Blaenoriaethau Eraill y Bartneriaeth*



**AMHCI1.1.** Cyflawni Cynllun 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' Caerdydd a Bro Morgannwg

## Nam Synhwyrdd a Cholli Cynneddf y Synhwyrdd

*Blaenoriaethau Eraill y Bartneriaeth*



**SLI1.1.** Darparu Cynllun Gofal Llygad Caerdydd a Bro Morgannwg ar y cyd â Gofal Sylfaenol, Gofal Eilaidd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Llywodraeth Cymru



**SLI1.2.** Datblygu a rhoi cynllun gweithredu ar waith ar draws y Bwrdd Iechyd i gyrraedd Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch i Bobl yn dioddef o Nam ar y Synhwyrdd, er mwyn gwella darpariaeth ar draws Gofal Sylfaenol, Gofal Eilaidd a Gofal Brys a Gofal Heb ei Drefnu



**SLI1.3.** Ystyried sefydlu dull darparu partneriaeth i ateb anghenion lletach pobl â nam ac amhariad ar y synhwyrdd

## Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

*Blaenoriaethau Eraill y Bartneriaeth*



**VAWDASV1.1.** Cyflawni Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg (*yn cael ei ddatblygu*)

## Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid

*Blaenoriaethau Eraill y Bartneriaeth*



**ASR1.1.** Cyflawni Cynllun Cydlyniad Cymunedol Caerdydd a Bro Morgannwg 2017/2020 (*yn cael ei ddatblygu*)



## Troseddwy

### Blaenoriaethau Eraill y Bartneriaeth



**O1.1.** Sicrhau fod y system cyfiawnder troseddol yn gweithio'n effeithiol ac effeithlon, yn ateb anghenion dioddefwyr a herio troseddwy

## Cyn-filwyr

### Blaenoriaethau Eraill y Bartneriaeth



**V1.1.** Cyflwyno Cynllun Gweithredu Cymunedol Lluoedd Arfog Caerdydd a Bro Morgannwg

## Camddefnyddio Sylweddau

### Blaenoriaethau Eraill y Bartneriaeth



**SM1.1.** Cyflwyno Strategaeth Gomisiynu Camddefnyddio Sylweddau a Llesiant Caerdydd a Bro Morgannwg 2016/2020 gyda ffocws ar atal, addysg, triniaeth, cymorth ac adferiad cynaliadwy tymor hir



**SM1.2.** Cynyddu diogelwch ein cymunedau drwy gyflawni ymatebion amlasiantaeth mewn lleoliadau lle mae offer chwistrellu ac offer arall yn ymwneud â chyffuriau yn aml wedi eu gadael




# 1: Pobl Hŷn, gan gynnwys Pobl â Demensia

## Beth oedd yr Asesiad Anghenion Poblogaeth yn ei ddweud wrthym?

- Yn gyffredinol mae gan Gaerdydd boblogaeth iau, tra bo gan Fro Morgannwg fwy o boblogaeth hŷn sy'n debycach i gyfartaledd Cymru. Mae disgwyl fodd bynnag i'r ddwy ardal weld cynnydd parhaus yn nifer y bobl sydd dros 65 ac 85 oed.
- Rhagwelir mai Bro Morgannwg fydd yn gweld y twf mwyaf ar draws y ddau grŵp oed, gan fod disgwyl i 20.5% o'u boblogaeth fod rhwng 65-84 yn 2025 (o'igymharu â 17.5% yn 2015), a 3.8% yn 85 oed neu'n hŷn (o'i gymharu â 2.8% yn 2015). Mae'r ddau ffigwr yma yn uwch na'r cyfartaledd a ragfynegir ar gyfer cyfartaledd Cymru sef 19.1% a 3.5%.
- Rhagfynegir hefyd y bydd nifer y bobl sy'n byw â demensia yn cynyddu'n sylweddol, gyda disgwyl y bydd demensia yn effeithio ar 1 ym mhob 3 yn y dyfodol. Cynnydd yn y boblogaeth dros 85 oed fydd yn bennaf gyfrifol am hyn.


## Beth oedd yr Anghenion Gofal a Chymorth Allweddol a gafodd eu nodi?




**Angen 1 (A1):**  
Sicrhau bod gwasanaethau allweddol sy'n cefnogi pobl hŷn yn parhau i fod yn gynaliadwy




**Angen 2 (A2):**  
Gwella mynediad at wybodaeth a chyngor (e.e. model 'siop untro')



**Angen 3 (A3):**  
Gwella rheolaeth integredig o broblemau iechyd meddwl a phroblemau corfforol




**Angen 4 (A4):**  
Integreiddio mwy ar wasanaethau iechyd, tai a gofal cymdeithasol




**Angen 5 (A5):**  
Lleihau achosion o allgáu cymdeithasol ac unigrwydd wrth gynnal annibyniaeth




**Angen 6 (A6):**  
Rhoi mwy o gefnogaeth i gael gafael ar gymorth ymarferol â thasgau o ddydd i ddydd megis siopa a garddio




**Angen 7 (A7):**  
Gwella gwybodaeth a chymorth i bobl â demensia, eu teuluoedd a'u gofalywyr



**Angen 8 (A8):**  
Rhoi tai priodol i fodloni anghenion unigolion, a galluogi pobl i aros yn annibynnol




**Angen 9 (A9):**  
Hyrwyddo amgylchoedd adeiledig hygyrch (gan gynnwys toiledau a goleuadau da)




**Angen 10 (A10):**  
Gwella'r broses o gomisiynu lleoedd mewn cartrefi gofal er mwyn sicrhau gofal cyson ac o ansawdd da




**Angen 11 (A11):**  
Gwella gwasanaethau trafniadaeth gyhoeddus er mwyn galluogi mynediad at weithgareddau hyrwyddo iechyd a llesiant



**Angen 12 (A12):**  
Gwella mynediad at wahanol fathau o eiriolaeth



**Angen 13 (A13):**  
Cynyddu cynhwysiant er mwyn galluogi mynediad at wybodaeth a gwasanaethau




**Angen 14 (A14):**  
Hyrwyddo cyfleoedd mewn cymunedau ar gyfer bob oedran



# 1: Pobl Hŷn, gan gynnwys Pobl â Demensia

## Beth yw ein Blaenoriaethau Allweddol yn Sgil Hynny?

Dyma'r blaenoriaethau allweddol y bydd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn eu cyflawni:



1.

Gan adeiladu ar y gwasanaeth Pwynt Cyswllt Cyntaf a'r gwasanaeth Mynediad Pwynt Unigol, datblygu ymhellach wasanaethau digidol ynghyd â phwyntiau mynediad ffôn, ar-lein ac wyneb yn wyneb sy'n hawdd mynd atynt i weithwyr proffesiynol a'r cyhoedd yn y rhanbarth




2.

Datblygu cymunedau cydnerth sydd â gwasanaethau lleol, seilwaith a rhwydweithiau cymunedol cryf i fodloni anghenion lleol lle y mae pobl hŷn yn byw



3.

Datblygu a chynnig ystod o ddewisiadau llety yn y dyfodol i fodloni'r galw a galluogi pobl i aros yn eu cartrefi cyn hired ag y bo modd



4.

Datblygu arferion asesu, diagnosis a chynllunio gofal gwell sy'n adeiladu ar ydweithio gwirioneddol gyda phobl hŷn a'u gofalwyr a'u teuluoedd, fel bod eu cynllun yn adlewyrchu'r hyn sydd yn bwysig iddynt ac yn cyflawni'r canlyniadau y maent yn eu deisyfu



5.



Datblygu Caerdydd a Bro Morgannwg fel rhanbarth demensia gyfeillgar

Gweler 'Cynllun gweithredu Ardal Caerdydd a Bro Morgannwg 2018/23' am fanylion ar sut y cyflawnir y blaenoriaethau allweddol hyn



# 1: Pobl Hŷn, gan gynnwys Pobl â Demensia


## Pa Amcanion Llesiant y mae'r Blaenoriaethau hyn yn Cyfrannu Tuag Atynt?



## Pa Ganlyniadau Cenedlaethol y mae'r Blaenoriaethau hyn yn Cyfrannu Tuag Atynt?

Disgwylir i'r blaenoriaethau allweddol uchod gyfrannu at yr agweddau llesiant canlynol:

- Sicrhau hawliau
- Iechyd corfforol a meddyliol a llesiant emosiynol
- Amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod
- Addysg, hyfforddiant a hamdden
- Perthynas ddomestig, teuluol a phersonol
- Cyfraniad a wneir at gymdeithas
- Llesiant cymdeithasol ac economaidd
- Addasrwydd lle i fyw





## 2: Plant a Phobl Ifanc, gan gynnwys Plant ag Anghenion Cymhleth

### Beth oedd yr Aseiad Anghenion Poblogaeth yn ei ddweud wrthym?

- Mae poblogaeth Caerdydd yn gymharol ifanc o'i chymharu â gweddill Cymru, gyda chyfran y babanod (0-4 oed) yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru. Yn y deng mlynedd nesaf, bydd cynnydd yn nifer y bobl rhwng 15-16 oed. Mae cyfran y bobl ifanc ym Mro Morgannwg yn debyg i gyfartaledd Cymru.
- Ym mis Mawrth 2016 roedd 340 o blant ar y gofrestr amddiffyn plant yng Nghaerdydd a 100 yn y Fro.
- Yn 2015, yng Nghaerdydd (91%) a Bro Morgannwg (90%) roedd cyfraddau presenoldeb plant mewn angen ychydig yn is na chyfartaledd Cymru gyfan o 92%. Ledled Cymru, mae 35% o blant mewn angen yn ennill 5 neu fwy Lefel A\*-G. Yng Nghaerdydd 31% oedd y gyfradd a 37% yn y Fro.
- Ym mro Morgannwg mae canran y disgyblion yn mlwyddyn 11 sy'n mynd ymlaen i beidio bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn parhau i leihau flwyddyn ar ôl blwyddyn ac mae'n llai na'r cyfartaledd yng Nghymru, mae lefelau Caerdydd hefyd wedi disgyn ond yn parhau yn uchel o'i gymharu â gweddill Cymru.
- Yn y Cyfrifiad yn 2011, nodwyd fod 1,579 o ofalwyr ifanc yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, er y cydnabyddir bod y Cyfrifiad yn amcangyfrif nifer y gofalwyr ifanc yn rhy isel.

### Beth oedd yr Anghenion Gofal a Chymorth Allweddol a gafodd eu nodi?

1



#### Angen 1 (A1):

Gwella cymorth i blant a phobl ifanc yr effeithir arnynt gan berthynas rhieni'n chwalu a thrais domestig


2



#### Angen 2 (A2):

Gwella mynediad prydlon at wasanaethau priodol, gan gynnwys gofal cynradd a gwasanaethau iechyd meddwl, a chymorth i bobl ifanc ag Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd ac Awtistiaeth

3



#### Angen 3 (A3):

Gwella mynediad at wasanaethau priodol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant mewn angen, gan gydnabod cyfraddau cynyddol o broblemau emosiynol ac iechyd meddwl

4



#### Angen 4 (A4):

Gwella cymorth i ofalwyr ifanc, gan gynnwys seibiant, a chodi ymwybyddiaeth o'r hyn maent yn ei wneud


5



#### Angen 5 (A5):

Annog mwy o blant a phobl ifanc i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt

6



#### Angen 6 (A6):

Gwella pontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion


7



#### Angen 7 (A7):

Darparu llety priodol a diogel

8



#### Angen 8 (A8):

Parhau i ddatblygu prentisiaethau a chyfleoedd addysgol galwedigaethol

9



#### Angen 9 (A9):

Ymateb i niferoedd a chymhlethdod cynyddol anghenion plant a phobl ifanc ag anabled




## 2: Plant a Phobl Ifanc, gan gynnwys Plant ag Anghenion Cymhleth

### Beth yw ein Blaenoriaethau Allweddol yn Sgil Hynny?


ON: Mae modd canfod blaenoriaethau allweddol yn ymwneud â gofalwyr ifanc yn adran 'Gofalwyr sy'n Oedolion a Gofalwyr sy'n Ifanc' y cynllun hwn.

Y blaenoriaethau allweddol sydd i gael eu harwain gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer plant ag anghenion cymhleth yw:



1.


Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol



2.

Gwella'r ddarpariaeth integredig ar gyfer plant ag anghenion cymhleth, gan gynnwys pontio rhwng gwasanaethau plant ac oedolion

Y blaenoriaethau allweddol sydd i gael eu harwain gan Bartneriaethau a threfniadau cynllunio eraill ar draws y rhanbarth ar gyfer plant a phobl ifanc yw:



1.

Cynyddu rôl plant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau




2.

Gwella canlyniadau addysgol




3.

Cynyddu nifer yr achosion llwyddiannus o blant a phobl ifanc yn pontio'n llwyddiannus i fyd gwaith, addysg neu hyfforddiant




4.

Gwella mynediad at wasanaethau priodol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd mewn angen, gan gydnabod cyfraddau uwch o broblemau emosiynol ac iechyd meddwl




5.

Rhoi mwy o gefnogaeth i blant a phobl ifanc yr effeithiwyd arnynt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan ddirywiad perthynas rhieni a thrais domestig



6.

Atal camfanteisio'n rhywiol ar blant



7.

Galluogi plant a phobl ifanc i fod yn hapus ac yn iach



8.



Datblygu sgiliau Cymraeg plant a chreu siaradwyr Cymraeg newydd, i gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050

Gweler 'Cynllun gweithredu Ardal Caerdydd a Bro Morgannwg 2018/23' am fanylion ar sut y cyflawnir y blaenoriaethau allweddol hyn



## 2: Plant a Phobl Ifanc, gan gynnwys Plant ag Anghenion Cymhleth


### Pa Amcanion Llesiant y mae'r Blaenoriaethau hyn yn Cyfrannu Tuag Atynt?



### Pa Ganlyniadau Cenedlaethol y mae'r Blaenoriaethau hyn yn Cyfrannu Tuag Atynt?

Disgwylir i'r blaenoriaethau allweddol uchod gyfrannu at yr agweddau llesiant canlynol:

- Sicrhau hawliau
- Iechyd corfforol a meddyliol a llesiant emosiynol
- Amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod
- Addysg, hyfforddiant a hamdden
- Perthynas ddomestig, teuluol a phersonol
- Cyfraniad a wneir at gymdeithas
- Llesiant cymdeithasol ac economaidd
- Addasrwydd lle i fyw






# 3: Anabledd Dysgu ac Awtistiaeth

## Beth oedd yr Aseiad Anghenion Poblogaeth yn ei ddweud wrthym?


- Cofrestrodd 1,426 o bobl ag anabledd dysgu yng Nghaerdydd yn 2015/16, a 542 ym Mro Morgannwg.
- Mae'r niferoedd hyn wedi aros yn weddol sefydlog yn y Fro dros y deng mlynedd diwethaf, ond maent wedi cynyddu'n sylweddol yng Nghaerdydd, o tua 40%.
- Rhagwelir cynnydd sylweddol yn nifer y bobl hŷn sydd ag anabledd dysgu yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.
- Mae ymchwil yn y DU i Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth (ASA) yn awgrymu bod tua 1.2% (116 fesul 10,000) o blant a phobl ifanc ag ASA. Fodd bynnag, ni fydd pob un o'r rhain wedi derbyn diagnosis ffurfiol.
- O ran poblogaeth Caerdydd, rhagfynegir bod 553 o blant 5-16 oed ag ASA, a 2,778 o bobl 17-64 ag ASA.
- Ym Mro Morgannwg, mae hyn yn rhoi amcan o 210 o blant 5-16 oed ag ASA, ac 887 o bobl 17-64 oed ag ASA.

## Beth oedd yr Anghenion Gofal a Chymorth Allweddol a gafodd eu nodi?




### Angen 1 (A1):

Gwella'r gallu i gael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau




### Angen 2 (A2):

Gwella gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus er mwyn galluogi mynediad at weithgareddau hyrwyddo iechyd a llesiant




### Angen 3 (A3):

Rhoi seibiant i'r rhai hynny mewn angen




### Angen 4 (A4):

Gwella mynediad at gyfleoedd dydd



### Angen 5 (A5):

Annog mwy o bobl sydd angen gwasanaethau i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt



### Angen 6 (A6):

Cydnabod a chefnogi pobl sy'n syrthio rhwng darpariaethau anabledd dysgu ac iechyd meddwl



# 3: Anabledd Dysgu ac Awtistiaeth

## Beth yw ein Blaenoriaethau Allweddol yn Sgil Hynny?


Dyma'r blaenoriaethau allweddol y bydd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn eu cyflawni:



**1.** Cefnogi pobl ag anableddau dysgu i fod mor annibynnol â phosib



**2.** Cefnogi pobl ag anableddau dysgu i chwarae rhan actif mewn cymdeithas ac ymgysylltu â gweithgareddau dydd ystyrlon a chyflogaeth neu wirfoddoli



**3.** Gwerthfawrogi pobl ag anableddau a'u cynnwys, a'u cefnogi i gael llais, a'u bod yn gallu arfer dewis ac arfer rheolaeth ar eu bywydau



**4.** Galluogi pobl ag anableddau i aros yn iach a theimlo'n ddiogel



**5.** Cefnogi pobl ag anableddau dysgu i fod yn ddysgwyr gydol oes





**6.** Datblygu Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig newydd lle y bydd pob asiantaeth sy'n gweithio mewn dulliau integredig, amlddisgyblaethol yn darparu gwasanaethau priodol i blant, pobl ifanc ac oedolion sydd ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth, gan fynd i'r afael â'u hanghenion emosiynol a rhyngweithio cymdeithasol, a'u hanghenion yn ymwneud ag addysg, iechyd a chyflogaeth

Gweler 'Cynllun gweithredu Ardal Caerdydd a Bro Morgannwg 2018/23' am fanylion ar sut y cyflawnir y blaenoriaethau allweddol hyn



### 3: Anabledd Dysgu ac Awtistiaeth


#### Pa Amcanion Llesiant y mae'r Blaenoriaethau hyn yn Cyfrannu Tuag Atynt?



#### Pa Ganlyniadau Cenedlaethol y mae'r Blaenoriaethau hyn yn Cyfrannu Tuag Atynt?

Disgwylir i'r blaenoriaethau allweddol uchod gyfrannu at yr agweddau llesiant canlynol:

- Sicrhau hawliau
- Iechyd corfforol a meddyliol a llesiant emosiynol
- Amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod
- Addysg, hyfforddiant a hamdden
- Perthynas ddomestig, teuluol a phersonol
- Cyfraniad a wneir at gymdeithas
- Llesiant cymdeithasol ac economaidd
- Addasrwydd lle i fyw





# 4: Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd

## Beth oedd yr Asesiad Anghenion Poblogaeth yn ei ddweud wrthym?

- Nod y Tîm Cymorth i Deuluoedd Integredig (TCDI) yw cynnig ymyrraeth ddwys. Mae'r tîm yn un sgilgar ac amlddisgyblaethol sy'n ymyrryd â theuluoedd y cânt eu hatgyfeirio gan weithwyr cymdeithasol Gwasanaethau Plant Cyngor Caerdydd a Bro Morgannwg, i leihau lefel y risg a sicrhau canlyniadau cadarnhaol lle bynnag y bo modd ar gyfer y plant mwyaf agored i niwed.
- Caiff atgyfeiriadau eu gwneud gan fod pryderon amddiffyn plant gwirioneddol yn sgil camddefnyddio sylweddau gan riant/gofalwr. Yn unol â rhan 9 Deddf GCLI, mae'r meini prawf atgyfeirio wedi eu hehangu bellach i gynnwys teuluoedd sy'n dangos problemau yn deillio o drais neu gam-drin domestig neu anhwylder meddyliol.
- Ers 2012 mae gwasanaeth ar y cyd wedi bod yn weithredol rhwng Caerdydd a Bro Morgannwg, gyda chyllideb wedi ei chronni a chytundeb ffurfiol yn ei le rhwng Cyngor Dinas Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae cyngor Caerdydd yn gweithredu fel yr awdurdod arweiniol ar gyfer y TCDI o fewn un tîm. Partneriaid eraill sydd wedi llofnodi'r cytundeb yw Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf (ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed), Heddlu De Cymru, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Barnardo's ac Action For Children.
- Ystyriodd yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth faterion ar wahân a oedd yn ymwneud â theuluoedd, camddefnyddio sylweddau a thrais domestig, sydd wedi eu dwyn ynghyd i lywio blaenoriaethau'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ar gyfer y TCDI.

## What were the Key Care and Support Needs Identified?


1



### Angen 1 (A1):

Gwella cymorth i blant a phobl ifanc yr effeithir arnynt gan berthynas rhieni'n chwalu a thrais domestig

2



### Angen 2 (A2):

Gwella mynediad prydlon at wasanaethau priodol, gan gynnwys gofal cynradd a gwasanaethau iechyd meddwl, a chymorth i bobl ifanc ag Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd ac Awtistiaeth

3



### Angen 3 (A3):

Gwella mynediad at wasanaethau priodol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant mewn angen, gan gydnabod cyfraddau cynyddol o broblemau emosiynol ac iechyd meddwl

4



### Angen 4 (A4):

